Canllawiau ar gyfer cyrff llywodraethu ar bolisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Canllawiau

Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 015/2011
Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2011
Yn disodli Cylchlythyr Rhif: 006/2008

Canllawiau ar gyfer cyrff llywodraethu ar bolisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion

Cynulleidfa

Cyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion a gynhelir yng Nghymru; awdurdodau lleol; undebau athrawon ac undebau eraill, awdurdodau esgobaethol, NACAB Cymru, sefydliadau cydraddoldeb ac anabledd, a chyrff cenedlaethol a lleol eraill sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ar gyfer cyrff llywodraethu a phenaethiaid ar faterion yn ymwneud â gweithredu neu newid polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion. Mae'n disodli'r canllawiau sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Camau i'w cymryd

Mae angen i gyrff llywodraethu a phenaethiaid ystyried y canllawiau anstatudol hyn wrth roi polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion ar waith neu eu newid.

Rhagor o wybodaeth

Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 6051
Ffacs: 029 2082 6109
e-bost: SMED2@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Ar gael drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Dogfennau cysylltiedig

Prosbectysau Ysgolion: Canllawiau i Benaethiaid a Chyrff Llywodraethu Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 14/01

Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwlio Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 23/03

Canllaw Llywodraethwyr Ysgolion i'r Gyfraith (2009)

Cytundebau Cartref-Ysgol: Canllawiau i Ysgolion Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 27/99

Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 1/2004 (Diwygiadau Mawrth 2006) Mae'r Cylchlythyr hwn yn cynnwys newidiadau o Gylchlythyr 1(A)/2004

Canllawiau ar Gynllun Grant Gwisg Ysgol Llywodraeth Cymru Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 25/2005

Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005

Canllawiau i Gyrff Llywodraethu ar Sefydlu a Gweithredu Cynghorau Ysgol Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 42/2006

ISBN 978 0 7504 6383 6
© Hawlfraint y Goron 2011
WG12745

Cynnwys

Crynodeb **1**

Adran 1: Cyflwniad a'r cyd-destun cyfreithiol **2**
Statws y canllawiau 2
Y ffordd mae'r ysgol yn cael ei rhedeg 3
Deddfwriaeth cydraddoldeb 4
Cytundebau rhwng y cartref a'r ysgol 4
Cynghorau ysgol ac ymgynghori â disgyblion 4

Adran 2: Materion yn ymwneud â chydraddoldeb i'w hystyried gan gyrff llywodraethu ysgolion **6**
Gwahaniaethu ar sail hil/cred grefyddol 6
Gwahaniaethu ar sail anabledd 7
Gwahaniaethu ar sail rhywiol/rhyw 7

Adran 3: Materion ymarferol i'w hystyried wrth fabwysiadu, newid neu werthuso polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion **9**
Cost gwisg ysgol 9
Adolygiad cyflenwi gwisg ysgol gan y Swyddfa Masnachu Teg, Medi 2006 10
Ystyriaethau eraill ynghylch gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion 10
Cotiau 10
Addysg gorfforol 10
Iechyd a diogelwch 11
Gemwaith 11
Materion meddygol 11
Teithio rhwng y cartref a'r ysgol 12

Adran 4: Gwybodaeth ymgynghori a chwynion **13**
Prosbectysau ysgolion 13
Ymgynghori â rhieni, disgyblion a grwpiau eraill 13
Cwynion 13
Peidio â chydymffurfio â pholisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion 14
Gwahardd a bod yn absennol 14

Adran 5: Cymorth ariannol **15**
Cynllun Grant Gwisg Ysgol Llywodraeth Cymru 15
Cymorth grant awdurdodau lleol 15
Cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol fel rhieni corfforaethol 16
Math arall o gymorth ar gyfer teuluoedd sydd ar incwm isel 16
Undebau credyd 16
Arferion da gan ysgolion 17

Atodiad A: Darpariaethau deddfwriaeth cydraddoldeb sy'n effeithio ar bolisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion **18**

Atodiad B: Crynodeb ynghylch dillad crefyddol **22**

Crynodeb

Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at gyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion. Mae'n canolbwyntio ar:

- sicrhau bod bechgyn a merched yn cael eu trin yn gyfartal a hefyd ddisgyblion o gefndiroedd ethnig a chrefyddol gwahanol a hefyd ddisgyblion anabl mewn perthynas â pholisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion;
- cost;
- ystyriaethau ymarferol sy'n gysylltiedig â chyflwyno polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion a'u newid;
- ymgynghori â rhieni a disgyblion.

Mae'r canllawiau hefyd yn nodi'r sefyllfa bresennol yng Nghymru mewn perthynas â rhoi cymorth ariannol i rieni tuag at y gost o brynu gwisg ysgol.

Adran 1: Cyflwniad a’r cyd-destun cyfreithiol

1.1 Nid oes deddfwriaeth addysg yn ymwneud yn benodol â gwisgo gwisg ysgol nac agweddau eraill ar edrychiad unigolion megis lliw a steil gwallt, gwisgo gemwaith a cholur. Fodd bynnag, yn rhan o'i gyfrifoldeb o gynnal yr ysgol, gall corff llywodraethu bennu gwisg ysgol y bydd yn ofynnol i ddisgyblion ei gwisgo a rheolau eraill yn ymwneud â'u hedrychiad. Mae ysgolion uwchradd yng Nghymru bron yn ddieithriad yn pennu gwisg ysgol ar gyfer disgyblion hyd at 16 oed; mae llawer yn dewis peidio â phennu gwisg ysgol ar gyfer y chweched dosbarth. Mae'r sefyllfa mewn ysgolion cynradd yn fwy cymysg.

1.2 Taer anogir cyrff llywodraethu gan Lywodraeth Cymru i lunio cod ar gyfer gwisg (neu ddillad) ysgol disgyblion a'u hedrychiad gan ei fod:

- yn creu ymdeimlad o hunaniaeth a chydlyniant yn yr ysgol ac yn ennyn balchder yn yr hyn a gyflawnir ganddi;
- yn gallu cefnogi ymddygiad positif a disgyblaeth o fewn yr ysgol;
- yn gallu sicrhau bod disgyblion yn gwisgo'n briodol ar gyfer gweithgareddau dysgu;
- yn gallu chwalu'r pwysau ymhlith cyfoedion i wisgo dillad gan 'gynllunwyr' ffasiwn;
- yn gallu sicrhau bod disgyblion o bob cefndir yn rhannu’r un hunaniaeth a’u teimlo bod eu gofynion arbennig yn cael eu cynnwys;
- yn gallu helpu i leihau'r anghydraddoldeb rhwng disgyblion a rhai ffactorau sy'n arwain at fwlio;
- yn gallu helpu i ddod o hyd i driwantiaid;
- yn gallu helpu i ganfod dieithriaid ar safle'r ysgol; ac
- yn gallu cefnogi a hyrwyddo ethos yr ysgol.

Statws y canllawiau

1.3 Er nad oes deddfwriaeth benodol sy'n ymwneud â gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion, gan olygu felly bod y canllawiau hyn **yn anstatudol**, mae nifer o ddarpariaethau statudol sy'n effeithio ar y mater hwn ac y mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu eu hystyried.

1.4 Nid bwriad y canllawiau hyn yw cynnig cyngor cyflawn ar gyfrifoldebau corff llywodraethu ynghylch gwahaniaethu neu hawliau dynol. Lle bo cyrff llywodraethu yn pryderu ynghylch canlyniadau niweidiol posibl rhai mathau o wisg, efallai y byddant am ystyried cael eu cyngor cyfreithiol eu hunain ac ymgynghori hefyd â sefydliadau cymunedol, rhieni a phlant a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

1.5 Ni ddylid ystyried bod y canllawiau hyn yn cynnig datganiad awdurdodol a/neu ddehongliad o'r gyfraith gan mai mater i'r Llysoedd benderfynu yn ei gylch yw hynny yn y pen draw.

Y ffordd mae'r ysgol yn cael ei rhedeg

1.6 Yn unol ag Adran 21 Deddf Addysg 2002 corff llywodraethu ysgol sy'n gyfrifol am y ffordd y mae ysgol yn cael ei rhedeg. Mae'n ofynnol i gorff llywodraethu redeg ysgol gyda golwg ar hyrwyddo safonau uchel o ran cyflawniad addysgol. Yn unol ag Adran 175 Deddf Addysg 2002 mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu redeg yr ysgol gyda golwg ar ddiogelu a hyrwyddo lles y plant sy'n ddisgyblion yn yr ysgol.

1.7 Yn unol â Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000 a wnaed o dan Adran 38 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 mae'n ddyletswydd ar gyrff llywodraethu a phenaethiaid i gyflawni eu cyfrifoldebau er mwyn:

a) cael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil a rhyw; a

b) hyrwyddo cyfle cyfartal a pherthynas dda rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol a rhwng dynion a menywod.

1.8 Mae'r pŵer i gyflwyno polisi gwisg ysgol wedi'i gynnwys yn adran 88(1) Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006. Er nad yw'r adran hon yn sôn am wisg ysgol yn benodol mae'n ddigon eang i'w chynnwys. Yn unol â'r adran hon mae'n ddyletswydd ar gyrff llywodraethu i roi ar waith yn yr ysgol bolisïau y bwriedir iddynt hyrwyddo disgyblaeth ac ymddygiad da.

1.9 Yn ogystal â hynny, mae hefyd yn ddyletswydd yn unol ag adran 89(1) Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 ar i benaethiaid bennu mesurau (gan gynnwys rheolau a darpariaethau i'w gorfodi) i'w gweithredu er mwyn hyrwyddo disgyblaeth ymhlith y disgyblion, annog y disgyblion i barchu awdurdod, annog y disgyblion i ymddwyn yn dda a pharchu eraill ac, fel arall, sicrhau ymddygiad boddhaol. Mae'n ofynnol yn ôl adran 89(6) bod unrhyw fesur sy'n cael ei gyflwyno gan y pennaeth o dan adran 89(1) o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn cael ei gyhoeddi ganddo ar ffurf dogfen ysgrifenedig. Dylai'r ddogfen ysgrifenedig fod yn hysbys i bawb yn yr ysgol ac i rieni disgyblion sydd wedi cofrestru yn yr ysgol. Mae hefyd yn ofynnol, unwaith ym mhob blwyddyn ysgol, i'r pennaeth gymryd camau i sicrhau ei fod yn cael ei ddwyn at sylw disgyblion, eu rhieni a phawb arall sy'n cael eu cyflogi i weithio yn yr ysgol neu y gwnaed trefniadau iddynt weithio yn yr ysgol.

1.10 Wrth lunio a gweithredu mesurau a wnaed o dan adran 89(6) Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006, dylai pennaeth gynnwys mesurau i atal pob ffurf ar fwlio. Dylai corff llywodraethu, felly, sicrhau na fydd llunio, newid neu weithredu polisi gwisg ysgol neu edrychiad disgyblion ynddo'i hun yn creu sefyllfa a fydd yn arwain at fwlio. Dylid delio'n gadarn ag unrhyw achos o fwlio a hynny ar unwaith. Dylai'r ysgol ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru yng Nghylchlythyr 23/2003 *Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwlio*[1].

[1] Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwlio – Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru rhif 23/2003.

Deddfwriaeth cydraddoldeb

1.11 Mae nifer o ddarpariaethau statudol wedi'u cynnwys o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a allai effeithio ar y polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion y bydd angen i gyrff llywodraethu a phenaethiaid roi sylw iddynt er mwyn peidio â gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail rhyw, hil, crefydd neu gred ac anabledd. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Atodiad A i'r ddogfen gyfarwyddyd hon.

1.12 Ymhlith y dyletswyddau a roddir ar gyrff llywodraethu o ganlyniad i'r Rheoliadau hyn mae:

- cyhoeddi amcanion i alluogi Corff Llywodraethu i gyflawni ei ddyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol yn well;
- asesu effaith eu polisïau, er enghraifft eu polisi gwisg ysgol, ar ddisgyblion, y staff a'r rhieni sy'n perthyn i wahanol grwpiau hiliol, gan gynnwys yr effaith ar lefelau cyrhaeddiad ar ddisgyblion o'r fath;
- monitro, drwy gyfeirio at eu heffaith ar y disgyblion, y staff a'r rhieni hynny, y modd y caiff polisïau o'r fath eu gweithredu, gan gynnwys eu heffaith ar lefelau cyrhaeddiad y cyfryw ddisgyblion.

Cytundebau rhwng y cartref a'r ysgol

1.13 Yn unol ag adran 110 y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1988 mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu lunio cytundebau rhwng y cartref a'r ysgol a'u gweithredu. Mae'r Ddeddf yn diffinio cytundeb rhwng y cartref a'r ysgol fel dogfen sy'n pennu:

- nodau a gwerthoedd yr ysgol;
- cyfrifoldebau'r ysgol mewn perthynas â'r holl ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol;
- cyfrifoldebau'r rhieni tra bo eu plentyn wedi'i gofrestru yn yr ysgol; a
- disgwyliadau'r ysgol o ran y disgyblion.

1.14 Un o'r materion y mae'n arferol i'r cytundebau hyn ymwneud ag ef yw gwisgo gwisg ysgol neu ddillad addas yn absenoldeb polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion. Yn aml iawn, y Cytundeb rhwng yr Ysgol a'r Cartref yw'r prif gyfrwng sy'n nodi at sylw rhieni, disgyblion a staff yr ysgol, y gofynion o ran gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion yn seiliedig ar bolisi'r ysgol. Mae'n bosibl y bydd cyrff llywodraethu hefyd am gynnwys telerau'r gosb a allai gael ei rhoi am beidio â gwisgo gwisg ysgol neu am dorri'r polisïau ar edrychiad disgyblion sydd yn y cytundeb. Fodd bynnag, ni ddylai cyrff llywodraethu gynnwys mewn Cytundeb rhwng y Cartref a'r Ysgol unrhyw delerau nac amodau a fyddai'n anghyfreithlon nac yn afresymol.

Cynghorau ysgol ac ymgynghori â disgyblion

1.15 Mae polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Yn y ddogfen 'Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau' mae gan Lywodraeth Cymru saith nod sylfaenol a

dywed fod gan bob person ifanc yng Nghymru yr hawl i gael ei gynnwys yn rhan o broses ymgynghori, i fod yn rhan o broses o wneud penderfyniadau, i gael gwrandawiad wrth iddynt leisio eu barn ar faterion sy'n ymwneud â hwy neu sy'n effeithio ar eu bywydau.

1.16 Mae gan ddisgyblion felly yr hawl i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy. Er mwyn cefnogi disgyblion ac ysgolion, mae Llywodraeth Cymru wedi llunio Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005 yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob ysgol gynradd (ac eithrio ysgolion meithrin ac ysgolion babanod), ysgol uwchradd ac ysgol arbennig yng Nghymru sefydlu cyngor ysgol. Nodir yng Nghylchlythyr 42/2006 – Canllawiau i Gyrff Llywodraethu ar Sefydlu a Gweithredu Cynghorau Ysgol – y gallai'r wisg ysgol fod yn un o'r materion y byddai cyngor ysgol o bosibl am ei drafod yn ei gyfarfodydd ar ôl ymgynghori â'r disgyblion yn yr ysgol.

Adran 2: Materion yn ymwneud â chydraddoldeb i'w hystyried gan gyrff llywodraethu ysgolion

2.1 Wrth lunio polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion, bydd angen i gorff llywodraethu ysgol ystyried y rheidrwydd sydd arno i beidio â gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail rhyw, hil, crefydd neu gred ac anabledd.

2.2 Y pwynt hanfodol yw y dylai cyrff llywodraethu weithredu yn deg ac yn rhesymol wrth ddewis neu adolygu eu polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion gan sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a deddfwriaeth wrthwahaniaethol arall. Dylai cyrff llywodraethu hefyd gadw at egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Erthyglau 12 a 13) fel y nodwyd isod:

Erthygl 12

1. *Parties shall assure to the child who is capable of forming his or her own views, the right to express those views freely in all matters affecting the child, the views of the child being given due weight in accordance with the age and maturity of the child.*
2. *For this purpose, the child shall in particular be provided the opportunity to be heard in any judicial and administrative proceedings affecting the child, either directly, or through a representative or an appropriate body, in a manner consistent with the procedural rules of national law.*

Erthygl 13

1. *The child shall have the right to freedom of expression; this right shall include freedom to seek, receive and impart information and ideas of all kinds, regardless of frontiers, either orally, in writing or in print, in the form of art, or through any other media of the child's choice.*
2. *The exercise of this right may be subject to certain restrictions, but these shall only be such as are provided by law and are necessary:*

   a) *For respect of the rights of reputations or others; or*

   b) *for the protection of national security or of public order, or of public health or morals.*

Gwahaniaethu ar sail hil/cred grefyddol

2.3 Dylai cyrff llywodraethu ysgolion ystyried eu polisïau ynghylch gwisg ysgol disgyblion a'u hedrychiad yng nghyd-destun eu polisi cydraddoldeb hiliol; y rheidrwydd sydd arnynt i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng disgyblion o wahanol grwpiau hiliol; a'r gofynion o ran asesu effaith polisïau'r ysgol ar ddisgyblion o wahanol grwpiau hiliol. Gellid ystyried bod corff llywodraethu yn gwahaniaethu pe na fyddai'n caniatáu ar gyfer anghenion crefyddol mewn perthynas â gwisg. Gallai hyn gael ei ystyried yn wahaniaethu hiliol anghyfreithlon (er enghraifft am fod carfan uchel o ddilynwyr o ffydd benodol yn dod o un neu ragor o grwpiau hiliol lleiafrifol ac yn

methu â chydymffurfio â gofynion penodol mewn perthynas â'r wisg ysgol), neu gallai gael ei ystyried yn achos o dorri dyletswyddau'r corff llywodraethu o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 neu Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

2.4 Mae Deddf Hawliau Dynol 1988 yn diogelu'r hawl i ‘amlygu ymlyniad wrth grefydd neu gred’. Mae amryw grefyddau yn ei gwneud hi’n ofynnol bod eu dilynwyr yn cydymffurfio â chod gwisg penodol neu'n amlygu eu cred yn allanol. Mae rhai crefyddau yn mynnu bod eu dilynwyr yn gwisgo arteffactau crefyddol neu eu bod yn gwisgo mewn ffordd benodol.

2.5 Mae'n bosibl i nifer o ofynion crefyddol gael eu diwallu drwy bolisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion a dylai cyrff llywodraethu ysgolion weithredu mewn modd rhesymol i ganiatáu am ofynion crefyddol. Ar ôl cytuno ar y polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion, dylai cyrff llywodraethu ysgolion ystyried yn ofalus unrhyw gais a wneir i amrywio'r polisi i ddiwallu anghenion disgyblion unigol er mwyn caniatáu am eu crefydd neu eu cred.

2.6 Mae’n bwysig i gyrff llywodraethu ystyried pryderon unrhyw grwpiau a sut y gallai eu polisïau arfaethedig ar gyfer gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion effeithio ar bob grŵp sydd yn yr ysgol. Dylai’r corff llywodraethu ystyried y materion posibl ar gyfer unrhyw grŵp ynghylch y polisïau arfaethedig ac a ddylent amharu ar hawl unigolyn i ddilyn yn rhesymol arfer cydnabyddedig sy’n rhan o’u crefydd neu gred ac a ydynt yn wahaniaethol eu natur.

2.7 Er enghraifft, efallai mai’r arfer cydnabyddedig fyddai i ddisgybl wisgo dilledyn penodol. Wrth gydnabod hyn, gallai’r corff llywodraethu benderfynu’n rhesymol y gall dilledyn penodol gael ei wisgo os yw’n cydymffurfio â lliwiau’r wisg ysgol. Wrth wneud penderfyniadau o’r fath, dylai cyrff llywodraethu ystyried hefyd faterion yn ymwneud ag Iechyd a Diogelwch fel y cyfeiriwyd atynt ym mharagraffau 3.10 a 3.11 yn y canllawiau hyn. Yn ogystal â hynny, mae’n bosibl y bydd gan blant o wahanol ddiwylliannau o fewn yr un gymuned grefyddol wahanol ofynion lle bydd angen ystyried addasu’r rheolau ar gyfer gwisg ysgol. Rhaid i gyrff llywodraethu weithredu o fewn y gofynion statudol perthnasol wrth wneud penderfyniadau.

Gwahaniaethu ar sail anabledd

2.8 Mae angen i gyrff llywodraethu sicrhau nad yw polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion yn rhoi disgyblion anabl o dan anfantais o'u cymharu â disgyblion nad ydynt yn anabl. Ymhlith y materion i'w hystyried gan gyrff llywodraethu yw pa mor ymarferol yw eu polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion mewn perthynas â disgyblion anabl. Efallai y bydd cyrff llywodraethu hefyd am ystyried a ellid gwneud addasiadau rhesymol i'r polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion er mwyn caniatáu am ofynion disgyblion anabl.

Gwahaniaethu ar sail rhywiol/rhyw

2.9 Dylai corff llywodraethu nodi'r hyn sy'n rhan o wisg ysgol bechgyn a merched a hefyd eu hedrychiad gan sicrhau nad yw hyn yn arwain at wahaniaethu anghyfreithlon.

2.10 Ni ddylai polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion arwain at sefyllfa lle bydd un rhyw o dan anfantais o'i gymharu â'r llall. Os oes unrhyw wahaniaethau yn y polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion rhwng y rhywiau, dylid eu cyfiawnhau'n wrthrychol gan roi rhesymau penodol a nodi hynny'n glir yn y polisi. Un sail dros gyfiawnhau hynny fyddai bod crefydd benodol yn pennu cod dillad a chod edrychiad gwahanol ar gyfer y ddau ryw. Gallai peidio â pharchu codau o'r fath olygu gwahaniaethu ar sail hil neu dorri hawliau dynol.

Adran 3: Materion ymarferol i'w hystyried wrth fabwysiadu, newid neu werthuso polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion

Cost gwisg ysgol

3.1 bydd yn ofynnol eu prynu yn unol â'r polisi gwisg ysgol fod yn faich ariannol yn arbennig i'r rheini o deuluoedd ar incwm isel a theuluoedd mawr. O ganlyniad, wrth gyflwyno gwisg ysgol newydd neu ystyried newid gofynion y wisg ysgol, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gyrff llywodraethu roi blaenoriaeth uchel i ystyriaethau'n ymwneud â chost. Ni ddylai unrhyw wisg ysgol fod mor ddrud y bydd disgyblion neu eu teuluoedd yn teimlo na allant wneud cais am fynediad i ysgol benodol neu na allant fynd i ysgol benodol.

3.2 Dylai cyrff llywodraethu ystyried y canlynol wrth gadw cost gwisg ysgol i lawr:

- Pennu eitemau a lliwiau sylfaenol yn unig fel y gellir prynu eitemau mewn siopau manwerthu am bris rhesymol ac nid gan un cyflenwr yn unig.
- Osgoi eitemau uchel eu cost fel blaser a chapiau.
- Logo'r ysgol – gall mynnu cael logo ar grysau polo, siwmperi, blaser a chit ymarfer corff gan gyflenwyr arbenigol fod yn gostus. Dylai ysgolion ystyried anghenraid mynnu cael eitemau o'r fath o gwbl, gan gydbwyso'r dymuniad i gael hunaniaeth benodol ar y naill law â'r dymuniad ar y llaw arall i sicrhau bod eitemau gwisg ysgol yn hawdd cael gafael arnynt ac yn fforddiadwy. Os oes rhaid cael logo ar wisg ysgol, dylai ysgolion gyfyngu ar eu nifer i un eitem (sy'n rhesymol o ran pris) sy'n cael ei gwisgo'n aml, e.e. siwmper neu gardigan. Dylai'r eitemau hyn fod ar gael yn hawdd i deuluoedd.
- Dylid ystyried y posibilrwydd o brynu logo i'w wnïo neu ei lynu wrth ddilledyn er mwyn lleihau'r gost lle bo'r logo yn cael ei ystyried yn rhan hanfodol o'r wisg ysgol.
- Osgoi amrywio'r lliw a'r steil ar gyfer gwahanol grwpiau blwyddyn – mae hyn yn ddrud i rieni ac yn golygu nad oes yr un cyfle i werthu'r dillad yn ail-law neu eu rhoi i frodyr neu chwiorydd.
- Cael eitemau y mae modd eu golchi'n hawdd: dylid osgoi eitemau i'w glanhau'n sych yn unig.
- Cyfyngu ar pa mor aml y caiff y wisg ysgol ei newid am y gall hyn fod yn gostus i rieni gan olygu unwaith eto nad oes yr un cyfle i'r dillad gael eu gwerthu'n ail-law na'u rhoi i ddisgyblion eraill.
- Ystyried cost meintiau gwahanol i'r meintiau arferol a hefyd a ydynt ar gael.
- Os yw'r polisi gwisg ysgol yn cael ei newid, cyflwyno cyfnod pontio fel y gall yr hen wisg ysgol gael ei gwisgo am o leiaf flwyddyn cyn newid yn llwyr i'r wisg ysgol newydd ac ystyried a allai eitemau o'r hen wisg ysgol gael eu cadw'n rhan o'r polisi newydd.

- Bod yn hyblyg wrth ystyried gofynion y wisg ysgol sylfaenol yn ystod tywydd poeth yn hytrach na chael gwisg ysgol wahanol ar gyfer y gaeaf a'r haf.
- Efallai y bydd ysgolion uwchradd am ystyried gwisg ysgol yr ysgolion cynradd sy'n eu bwydo yn eu polisi gwisg ysgol er mwyn i'r disgyblion allu parhau i ddefnyddio unrhyw eitemau sylfaenol (ee crysau gwyn, crysau polo gwyn, trowsus du, sgertiau du a chyfarpar chwaraeon) yn yr ysgol uwchradd.

Adolygiad cyflenwi gwisg ysgol gan y Swyddfa Masnachu Teg, Medi 2006

3.3 Mae Llywodraeth Cymru yn annog cyrff llywodraethu i ystyried pwysigrwydd gallu cael gafael yn hawdd ar ddillad gwisg ysgol oddi wrth amrywiaeth o gyflenwyr wrth ystyried eu trefniadau cyflenwi gwisg ysgol. Yn 2006, cynhaliodd y Swyddfa Masnachu Teg adolygiad o arferion rhai ysgolion yn y DU lle mae'n ofynnol i rieni brynu gwisg ysgol gan fanwerthwyr arbennig neu gan yr ysgol ei hun. Canfu'r adolygiad fod trefniadau egsgliwsif o'r fath 23% yn ddrutach, ar gyfartaledd, na manwerthwyr eraill gwisgoedd ysgol a 150% yn ddrutach nag archfarchnadoedd.

3.4 Byddai cael amrywiaeth eang o gyflenwyr gwisg ysgol hefyd yn ateb problem hwylustod i rieni sy'n ei chael yn anodd dod o hyd i gyflenwyr gwisg ysgol mewn ardaloedd anghysbell.

3.5 Ceir manylion ynghylch y cymorth ariannol sydd ar gael i rai teuluoedd gael gwisg ysgol yn adran 5.

Ystyriaethau eraill ynghylch gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion

Cotiau

3.6 Dylai cyrff llywodraethu fod yn fwy hyblyg yn eu gofynion ynghylch y cotiau i'w gwisgo rhwng y cartref a'r ysgol. Gallai pennu lliw neu steil penodol olygu y bydd yn rhaid i rieni brynu dwy got ar gyfer eu plentyn - y naill i'w wisgo i'r ysgol a'r llall ar gyfer adegau eraill. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod fodd bynnag y gallai rhai cotiau ffasiwn gael eu hystyried yn amhriodol. Mae'n bosibl felly y bydd cyrff llywodraethu am weithio gyda rhieni ar y mater hwn er mwyn dod o hyd i ateb y bydd y ddwy ochr yn cytuno ag ef.

Addysg gorfforol

3.7 Mae'r wisg ysgol yn aml yn cynnwys dillad sydd eu hangen ar gyfer Addysg Gorfforol. Mae Addysg Gorfforol yn rhan bwysig o fywyd yr ysgol ac yn gyfrwng i hybu iechyd a lles pobl ifanc yn gyffredinol. Dylai disgyblion deimlo'n gyfforddus ynghylch eu dillad Addysg Gorfforol. Dylai ysgolion ddewis gwisg Addysg Gorfforol sy'n ymarferol, yn gyfforddus ac yn briodol i'r gweithgareddau dan sylw. Gall cyfranogiad disgyblion mewn gwersi Addysg Gorfforol, yn arbennig cyfranogiad merched, gael ei effeithio'n andwyol gan y dillad mae'n ofynnol iddynt eu gwisgo. Dylai cyrff llywodraethu fod yn sensitif ac yn hyblyg gan roi ystyriaeth i faterion yn

ymwneud â chydraddoldeb sydd wedi'u hamlinellu yn y canllawiau hyn. Dylai ysgolion ystyried hefyd gost dillad Addysg Gorfforol, yn arbennig lle bo angen cyfarpar arbenigol hefyd.

3.8 Dylai esgidiau Addysg Gorfforol fod yn addas h.y. treinyrs a phlimsols at ddibenion iechyd a diogelwch (gweler paragraff 3.8). Dylai cyrff llywodraethu ystyried a ddylid caniatáu i unrhyw blentyn nad yw'n gwisgo'r esgidiau cywir gymryd rhan mewn gwers Addysg Gorfforol. Gallai cyrff llywodraethu benderfynu y gallai'r disgyblion hyn gymryd rhan o hyd drwy weinyddu, cadw sgôr ac ati gan eu hatgoffa y dylid gwisgo dillad addas er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau Addysg Gorfforol yn y dyfodol. Ni ddylai plant wisgo'r un sanau ac esgidiau ar gyfer y gwersi Addysg Gorfforol ag ar gyfer gweddill eu diwrnod yn yr ysgol.

Iechyd a diogelwch

3.9 Mae materion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch yn hynod bwysig, yn enwedig pan fo disgyblion yn cymryd rhan mewn gwersi Addysg Gorfforol a gwyddoniaeth. Wrth lunio neu addasu polisïau gwisg ysgol neu edrychiad disgyblion mae'n bosibl y bydd yn rhaid i gyrff llywodraethu gydbwyso dyheadau a hawliau disgyblion unigol yn erbyn y gofynion iechyd a diogelwch neu warchodaeth. Er enghraifft, mae gan gyrff llywodraethu yr hawl i ddisgwyl i ddisgyblion â gwallt hir neu sgarffiau pen eu clymu yn ôl er diogelwch wrth wneud Ymarfer Corff ac wrth weithio mewn labordai gwyddoniaeth neu weithdai technoleg.

Gemwaith

3.10 Mae'n bosibl y bydd cyrff llywodraethu am ystyried gwisgo gemwaith yn rhan o'r polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion a phennu eitemau o emwaith y caniateir i ddisgyblion eu gwisgo. Wrth wneud hynny, dylai cyrff llywodraethu ystyried y cyngor a roddir ym mharagraffau 2.4-2l.8 yn y canllawiau hyn ac a allai'r polisi gwisg ysgol arfaethedig amharu ar hawl yr unigolyn i ddilyn yn rhesymol arfer cydnabyddedig sy'n rhan o'i grefydd neu ei gred ac a allai'r polisi arwain at wahaniaethu. Mae yna hefyd faterion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch i'w hystyried. Gall fod yn rhesymol i gorff llywodraethu wahardd disgyblion rhag gwisgo gemwaith lle ystyria y bydd hyn yn arwain at risg o gael anaf (e.e. mewn gwersi Ymarfer Corff lle dylid gofyn i ddisgyblion dynnu eu clustdlysau neu eu gorchuddio a thâp).

Materion meddygol

3.11 Unwaith y bydd polisïau ynghylch gwisg ysgol ac edrychiad yn eu lle bydd angen i gyrff llywodraethu ystyried yn ofalus geisiadau i amrywio'r polisi er mwyn diwallu anghenion disgybl unigol oherwydd cyflwr meddygol neu nam dros dro neu barhaol. Er enghraifft, mae'n bosibl na fydd disgyblion sy'n dioddef o gyflwr arbennig ar y croen yn gallu gwisgo rhai ffabrigau ac na fydd disgyblion ag anafiadau i'w troed neu eu coes yn gallu gwisgo esgidiau ysgol. Efallai y bydd disgybl â nam penodol yn ystyried bod rhai eitemau penodol o'r wisg ysgol yn eu cyfyngu.

Teithio rhwng y cartref a'r ysgol

3.12 Dylai cyrff llywodraethu annog plant i gerdded neu seiclo i'r ysgol a dylent ystyried hyn wrth bennu cynllun a steil y wisg ysgol. Mae gwisg ysgol yn aml yn dywyll sy'n ei gwneud hi'n anodd i blant gael eu gweld gan yrwyr, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf. Dylai cyrff llywodraethu ystyried manteision cynnwys lliwiau golau a/neu ddefnyddiau adlewyrchol yn rhan o'u polisi gwisg ysgol er mwyn sicrhau y gall plant gerdded a seiclo'n ddiogel i'r ysgol.

Adran 4: Gwybodaeth ymgynghori a chwynion

Prosbectysau ysgolion

4.1 Dylai'r gofynion ynghylch gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion gael eu cynnwys ym mhrosbectws yr ysgol. Dylai prosbectws yr ysgol gael ei ddiweddaru bob blwyddyn gan sicrhau ei fod ar gael i rieni pob plentyn sydd eisoes ar gofrestr yr ysgol a hefyd ddarpar ddisgyblion os ceir cais amdano. Gallai'r polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion ymddangos hefyd ar wefan ysgolion. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod y rhieni oll yn ymwybodol o bolisïau'r ysgol ar wisg ysgol ac edrychiad disgyblion cyn iddynt benderfynu anfon eu plentyn i'r ysgol.

Ymgynghori â rhieni, disgyblion a grwpiau eraill

4.2 Wrth ystyried cyflwyno polisïau newydd ar wisg ysgol ac edrychiad disgyblion neu newid y polisi presennol ar wisg ysgol ac edrychiad disgyblion yn unol ag egwyddorion arferion da, dylai cyrff llywodraethu ymgynghori'n eang â disgyblion a rhieni/gofalwyr presennol yn ogystal â darpar ddisgyblion a rhieni/gofalwyr, yn enwedig o ystyried y gallai ei newid olygu costau ychwanegol. Dylai'r broses ymgynghori gynnwys hefyd gynrychiolwyr o wahanol grwpiau o ddisgyblion yn y gymuned ehangach, gan sicrhau bod arweinwyr cymunedol sy'n cynrychioli grwpiau lleiafrifoedd ethnig a chrefyddol yn eu plith (ceir yn Atodiad B amlinelliad o'r mathau o faterion a allai fod yn berthnasol i ddilynwyr rhai crefyddau mewn perthynas â gwisg) yn ogystal â grwpiau sy'n cynrychioli disgyblion ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau. Gall cyrff llywodraethu gynnwys disgyblion a chyngor yr ysgol yn y broses o lunio polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion drwy eu gwahodd i gyfrannu at ddylunio eu polisi gwisg ysgol, eu hannog i ysgwyddo cyfrifoldeb am y mater a chysylltu wedi hynny â rhieni, darpar rieni a disgyblion.

4.3 Dylai cyrff llywodraethu gofnodi'r camau a gymerwyd yn rhan o'r broses ymgynghori, y pwyntiau a wnaed gan y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad, a'r penderfyniadau a wnaed wrth bwyso a mesur y safbwyntiau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd. Byddai o fudd petai cyrff llywodraethu yn nodi'r rhesymau am y penderfyniadau a wnaed wrth ymateb i sylwadau a gafwyd, yn arbennig os ymdriniwyd â mater cynhennus yn ystod yr ymgynghoriad.

4.4 Anogir cyrff llywodraethu i adolygu eu polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion o bryd i'w gilydd (a dylent ystyried gwneud hynny bob amser pan gyflwynir sylwadau). Fe'u hanogir hefyd i ymgynghori â rhieni, disgyblion a grwpiau eraill am eu sylwadau wrth ymgymryd ag unrhyw adolygiad.

Cwynion

4.5 Dylid ymdrin â chwynion ynghylch codau/polisïau gwisg ysgol (neu ddillad) ac edrychiad yn unol â gweithdrefn y corff llywodraethu ar gyfer gwneud cwyn.

Peidio â chydymffurfio â pholisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion

4.6 Lle bo'r corff llywodraethu wedi cyflwyno polisi gwisg ysgol a/neu reolau ynghylch edrychiad, y pennaeth fydd yn gyfrifol am sicrhau y cedwir atynt yn rhan o'i gyfrifoldebau cyffredinol o redeg yr ysgol a sicrhau disgyblaeth o ddydd i ddydd.

4.7 Dylai penaethiaid benderfynu pa gamau i'w cymryd pan fydd disgyblion yn torri rheolau'r ysgol mewn perthynas â gwisg ysgol neu edrychiad. Gall penaethiaid ddisgyblu disgyblion am dorri polisïau'r ysgol ynghylch gwisg ysgol/edrychiad. Dylent geisio darganfod yn gyntaf oll fodd bynnag pam nad yw disgybl yn cydymffurfio â'r polisi. Os gwelir mai'r rheswm yw bod teuluoedd yn wynebu anawsterau ariannol, dylai ysgolion ganiatáu amser penodol i'r eitemau gofynnol gael eu prynu a chynnig gwybodaeth am y cymorth y gall yr AALl neu'r ysgol ei gynnig yn hyn o beth.

4.8 Gall fod rhesymau eraill pam nad yw disgybl yn cydymffurfio â'r polisi gwisg ysgol neu edrychiad ar wahân i rai ariannol neu'r disgybl yn herio'r polisi. Er enghraifft, gallai'r disgybl fod wedi colli ei wisg ysgol, gallai'r wisg fod wedi'i dwyn neu ei difrodi, neu ei baeddu'n ddamweiniol i'r graddau na ellid ei gwisgo ac mae'n bosibl na fyddai modd golchi a sychu rhai eitemau o ddillad dros nos. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i benaethiaid anfon plant adref o dan amgylchiadau o'r fath. Gallai rhesymau eraill gynnwys y posibilrwydd nad yw'r wisg ysgol ar gael ym maint y disgybl neu fe all fod rhesymau crefyddol na chawsant mo'u nodi cyn hynny.

4.9 Gall penaethiaid ofyn i ddisgyblion fynd adref i newid eu dillad heb eu gwahardd yn ffurfiol. Ni ddylai hyn gymryd mwy o amser nag sydd raid i newid y dillad a dim ond lle gallai hynny gael ei wneud yn gyflym ac yn ddidrafferth y byddai hyn yn briodol. Ni ddylai penaethiaid anfon disgybl adref am gyfnod amhenodol neu am gyfnod yn hwy nag sydd raid i newid ei ddillad neu ei edrychiad (e.e. drwy dorri ei wallt) gan y gallai hyn gael ei ystyried gyfystyr â gwaharddiad answyddogol. Wrth anfon plentyn adref, dylai penaethiaid neu aelodau o'r staff uwch ystyried oedran y plentyn ac i ba raddau y mae'n agored i niwed. Dylent hefyd gysylltu â'r rhieni neu ofalwyr petai angen. Byddai disgwyl i'r disgybl ddychwelyd i'r ysgol yn syth ar ôl newid ei ddillad. Gallai peidio â gwneud hynny gael ei ystyried gyfystyr ag absenoldeb heb awdurdod.

Gwahardd a bod yn absennol

4.10 Fel rheol, nid yw gwahardd yn ymateb priodol i achosion lle na chydymffurfir â'r polisiau ar wisg ysgol/edrychiad. Fodd bynnag, lle bo'r achosion hyn yn digwydd yn barhaus ac yn herio'n agored bolisi'r ysgol ar wisg ysgol neu edrychiad a lle defnyddiwyd pob ffordd bosibl arall i ddatrys yr anghydfod ynghylch y wisg ysgol, yna gallai'r ysgol ystyried gwahardd fel yr ateb olaf yn dibynnu ar yr amgylchiadau yn yr achos arbennig hwnnw.

4.11 Mae angen i gyrff llywodraethu sicrhau nad yw absenoldeb yn digwydd am nad yw teuluoedd yn gallu darparu gwisg ysgol ar gyfer eu plant. Petai sefyllfa o'r fath yn codi, dylai gwybodaeth a chymorth priodol arall gael eu rhoi i'r teuluoedd hynny gan yr Awdurdod Lleol neu'r ysgol.

Adran 5: Cymorth ariannol

Cynllun grant Gwisg Ysgol Llywodraeth Cymru

5.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod rhai rhieni yn wynebu caledi ariannol oherwydd y gost o brynu gwisg ysgol i'w plant. Cred Llywodraeth Cymru hefyd na ddylai'r cymorth ariannol y mae rhieni yn ei dderbyn tuag at gost gwisg ysgol gael ei effeithio gan ble yng Nghymru y maent yn byw.

5.2 Ym mis Mehefin 2005, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gynllun grant gwisg ysgol i gynorthwyo teuluoedd ar incwm isel brynu gwisg ysgol i'w plant. Cafodd y cynllun ei dargedu i gynorthwyo'r disgyblion hynny sydd ar fin dechrau yn yr ysgol uwchradd gan mai dyna'r adeg y bydd rhieni'n wynebu'r gost fwyaf wrth brynu gwisg ysgol ar yr un pryd.

5.3 Mae'r cynllun yn cynnig grant i ddisgyblion sy'n dechrau ym Mlwyddyn 7 mewn ysgolion uwchradd a gynhelir yng Nghymru ac sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hefyd yn gymwys i ddisgyblion mewn ysgolion arbennig, canolfannau adnoddau anghenion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru sy'n 11 oed ar ddechrau'r flwyddyn ysgol ac sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.

5.4 Mae'r cynllun grant yn cael ei weinyddu gan awdurdodau addysg lleol ar ran Llywodraeth Cymru. Dylai ysgolion ddweud wrth rieni y dylai ceisiadau am y grant hwn gael eu hanfon i'r awdurdod lleol.

Cymorth grant awdurdodau lleol

5.5 Ceir yn Adran 518 Deddf Addysg 1996, fel y'i disodlwyd gan adran 129 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a Rheoliadau Awdurdod Addysg Lleol (Talu Treuliau Ysgol) 1999 ddarpariaeth ar gyfer pwerau disgresiwn i awdurdodau addysg lleol wneud taliadau i dalu am gost dillad ysgol lle maent yn fodlon y dylai taliad o'r fath gael ei wneud er mwyn osgoi caledi ariannol neu ei liniaru.

5.6 Mae llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru yn cynnig cymorth ariannol tuag at gost gwisg ysgol. Ar hyn o bryd, disgyblion ysgolion uwchradd yn unig sy'n cael cynnig cymorth o'r fath.

5.7 Mae'r meini prawf cymhwysedd sy'n cael eu defnyddio gan Awdurdodau Lleol yn amrywio. Mae rhai awdurdodau yn seilio cymhwysedd ar yr un meini prawf a ddefnyddir i weld a ydynt yn gymwys i gael cinio ysgol am ddim; mae eraill yn defnyddio meini prawf cymhwysedd ar gyfer cael amrywiol fudd-daliadau megis Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm, Budd-daliadau Tai, Lwfans Gweddw(on). Mae rhai awdurdodau yn cynnal asesiad cymhwysedd gan edrych ar incwm teulu dros gyfnod penodol o amser. Mae'r modd y caiff y grantiau eu gweinyddu hefyd yn amrywio gyda rhai awdurdodau yn gweinyddu'r grantiau eu hunain ac eraill yn trosglwyddo'r gwaith o'u gweinyddu i'r ysgolion.

5.8 Mae swm y grantiau a delir gan Awdurdodau Lleol a'u hamlder hefyd yn amrywio. Mae rhai awdurdodau yn cynnig grantiau ar gyfer gwisg ysgol yn flynyddol; mae rhai awdurdodau yn cynnig grant ar gyfer blynyddoedd ysgol penodol yn unig.

5.9 Mae'r dulliau a ddefnyddia Awdurdodau Lleol i dalu'r grant hefyd yn amrywio. Mae rhai awdurdodau yn rhoi sieciau i rieni disgyblion cymwys; mae rhai yn talu drwy drosglwyddiad BACS i gyfrif banc; tra bo eraill yn cyflwyno talebau y gellir eu defnyddio mewn siopau sy'n rhan o'r cynllun. Mae rhai ysgolion yn rhoi'r wisg ysgol yn uniongyrchol i ddisgyblion cymwys ac yn defnyddio'r grant i dalu'r gost.

5.10 Rhoddir i Awdurdodau Lleol unigol y disgresiwn i benderfynu ynghylch y cyfryw drefniadau.

Cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol fel rhieni corfforaethol

5.11 Wrth gyflawni eu rôl fel rhieni corfforaethol, disgwylir i awdurdodau lleol roi blaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal a gweithredu fel eiriolwr ar eu rhan fel y gwna rhieni i'w plant eu hunain. Dylai awdurdodau lleol felly wneud trefniadau er mwyn sicrhau y gall y plentyn neu'r person ifanc gydymffurfio â'r polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion ac nad yw o dan anfantais.

Math arall o gymorth ar gyfer teuluoedd sydd ar incwm isel

5.12 Mae rhai mathau eraill o gymorth ariannol ar gael:

- Mae'n bosibl y gall rhieni a fu'n derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Credyd Pensiwn neu arian un o'r budd-daliadau hyn am o leiaf 26 wythnos wneud cais am fenthyciad cyllidebu o'r gronfa gymdeithasol o dan y categori dillad ac esgidiau o'r Ganolfan Byd Gwaith.
- Efallai y gall cyrff llywodraethu neu gymdeithasau rhieni ysgolion fod o gymorth. Gallai hyn fod ar ffurf cymorth ariannol o gronfa caledi, cynllun cynilo neu drwy roi dillad ail-law.
- Efallai y gall elusennau lleol fod o gymorth.

Undebau credyd

5.13 Menter gymdeithasol ddi-elw yw undeb credyd a chaiff ei redeg gan bobl leol er lles pobl leol. Defnyddir unrhyw arian dros ben er lles ei aelodau.

5.14 Gall pawb sy'n byw neu'n gweithio o fewn ardal yr undeb credyd ymuno, ynghyd ag unrhyw aelod o'u teulu sy'n byw gyda hwy. Mae gan lawer o undebau credyd Adran Cynilwyr Iau hefyd i'r rheini dan 16 oed. Mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i annog pobl o bob oed i ymuno ag undebau credyd ac i annog ysgolion i sefydlu mannau casglu i gynilwyr ifanc.

5.15 Mae cyngor am sut i sefydlu man casglu mewn ysgol ar gael yn http://www.cuinschools.org.

5.16 Erbyn hyn mae undebau credyd yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau eraill, gan gynnwys cyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Plant, Cyfrifon Cynilo Unigol (ISAs), yswiriant, cyngor rheoli arian a dyledion, yn ogystal â benthyciadau llai ar gyfraddau fforddiadwy. Drwy berthyn i undeb credyd, gall rhieni gynilo ychydig yn rheolaidd tuag at gost gwisg ysgol, neu wneud cais am fenthyciad bach a fydd yn caniatáu iddynt rannu cost gwisg ysgol drwy'r flwyddyn.

Arferion da gan ysgolion

5.17 Enghreifftiau o arferion da gan ysgolion mewn perthynas â chymorth ariannol tuag at wisg ysgol:

- Rhoi cyhoeddusrwydd i Gynllun Grant Gwisg Ysgol Llywodraeth Cymru.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i gynlluniau grant dewisol awdurdodau lleol lle bo'n berthnasol.
- Cronfeydd dewisol gan ysgolion tuag at galedi.
- Hybu'r arfer o drefnu stondinau i werthu gwisg ysgol o ansawdd da yn ail-law mewn nosweithiau rhieni neu ddigwyddiadau eraill.
- Benthyca eitemau ail-law i ddisgyblion a sefydlu ystafell adnoddau mewn lleoliad nad yw'n rhy amlwg i osgoi stigma ymhlith disgyblion.
- Swmp-brynu eitemau a'u gwerthu i rieni am bris gostyngol, gan gynnig o bosibl gynllun taliadau hawdd.
- Lle nad oes angen eitem o ddillad Ymarfer Corff ond am ran o'r flwyddyn ysgol yn unig, nodi hynny yn y rhestr ar gyfer y cit fel na fydd y plentyn yn tyfu allan o'r eitem cyn y bydd ei angen ac fel y gall y rhieni gyllidebu ar ei chyfer drwy wasgaru'r gost.

Atodiad A

Darpariaethau deddfwriaeth cydraddoldeb sy'n effeithio ar bolisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu disgyblion rhag i eraill wahaniaethu yn eu herbyn ar sail anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol ('nodweddion gwarchodedig').

Mae Adran 85 Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i Gorff Llywodraethu wahaniaethu yn erbyn disgybl neu ddarpar ddisgybl mewn perthynas â derbyn plant/pobl ifanc i ysgol neu yn y fofrdd y mae'n trin disgybl ar ôl ei dderbyn; er enghraifft, yn y ffordd mae'r ysgol yn cynnig neu'n peidio â chynnig manteision, cyfleusterau neu wasanaethau i'r disgybl.

Mae hyn yn cynnwys pob gweithgaredd ym mhob rhan o fywyd yr ysgol, gan gynnwys polisïau gwisg ysgol ac edrychiad. Mae'n golygu na chaiff unrhyw beth a wnaiff corff llywodraethu wahaniaethu yn erbyn unrhyw un, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu adolygu eu harferion, eu polisïau a'u gweithdrefnau yn rheolaidd i sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn disgyblion sydd â nodweddion gwarchodedig.

Dyma'r prif ddyletswyddau i gyrff llywodraethu mewn perthynas â gwahaniaethu:

- Peidio â thrin disgybl, oherwydd ei nodwedd warchodedig, yn llai ffafriol nag y mae'n trin disgybl nad yw'n rhannu'r nodwedd warchodedig honno. Gwahaniaethu uniongyrchol yw hynny ac ni ellir ei gyfiawnhau.
- Peidio â chaniatáu trefniant, rheol neu weithdrefn sy'n berthnasol i bob disgybl os yw'n golygu, neu y byddai'n golygu, bod disgyblion â nodwedd warchodedig benodol dan anfantais sylweddol o gymharu â disgyblion nad ydynt yn rhannu'r nodwedd warchodedig honno, ac os na ellir cyfiawnhau rheol ysgol fel ffordd gymesur o gyflawni'r amcan cyfreithlon. Gwahaniaethu anuniongyrchol yw hyn. Mae "sylweddol" yn rhywbeth mwy na mater pitw neu ddibwys. Mae sefyllfa lle mae polisi gwisg ysgol yn nodi bod yn rhaid i bob disgybl wisgo math arbennig o esgid yn enghraifft o wahaniaethu anuniongyrchol. Os na all disgybl gydymffurfio â'r rheol honno oherwydd anabledd, byddai'r rheol yn anghyfreithlon ar sail y ffaith bod y rheol yn rhoi'r disgybl anabl dan anfantais sylweddol o gymharu â disgyblion nad ydynt yn anabl oni bai bod yr ysgol yn gallu cyfiawnhau'r rheol.
- Cymryd camau, hyd y bo'n rhesymol, i osgoi, hyd y bo modd drwy gyfrwng rhesymol, yr anfantais sylweddol y mae disgybl yn ei brofi oherwydd nodwedd warchodedig. Y ddyletswydd i wneud 'addasiadau rhesymol' yw hyn. Mae'n golygu bod yn rhaid i gyrff llywodraethu ragweld lle gallai fod yna rwystrau i ddysgu a chymryd camau i gael gwared â hwy i'r graddau posibl.

Triniaeth lai ffafriol

Gwahaniaethu Uniongyrchol ac Anuniongyrchol

Er mwyn penderfynu a yw corff llywodraethu wedi trin disgybl â nodwedd warchodedig yn 'llai ffafriol', rhaid cymharu â'r ffordd mae'r corff llywodraethu wedi trin disgyblion nad ydynt yn rhannu'r nodwedd warchodedig honno, neu y byddai wedi'u trin mewn amgylchiadau tebyg. Os yw'r ffordd mae'r corff llywodraethu yn trin disgybl yn rhoi'r disgybl dan **anfantais** o gymharu â disgyblion nad ydynt yn rhannu'r nodwedd warchodedig, yna mae'n debygol y bydd y driniaeth yn llai ffafriol.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb hefyd yn nodi na ddylai ysgol aflonyddu ar ddisgybl na'i erlid.

Mae aflonyddu yn ymddygiad na chroesewir sy'n ymwneud â nodwedd warchodedig berthnasol, sy'n ceisio neu'n llwyddo i dynnu oddi wrth urddas unigolyn neu'n creu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, diraddiol, sy'n codi cywilydd neu'n tramgwyddo. Mae hyn yn cwmpasu ymddygiad annymunol a bwlio. Er enghraifft, gallai sefyllfa lle mae athro yn gwneud hwyl am ben disgybl ac yn ei dynwared yn y dosbarth am ei bod yn feichiog a'r ffordd mae'n edrych fod yn achos o aflonyddu.

Erlid yw'r hyn sy'n digwydd pan gaiff disgybl ei drin yn llai ffafriol nag y byddid wedi'i drin oherwydd rhywbeth mae wedi'i wneud ("gweithred warchodedig") mewn perthynas â'r Ddeddf Cydraddoldeb. Er enghraifft, efallai bod disgybl yn cael ei drin yn llai ffafriol am iddo gwyno bod athro yn ei fwlio oherwydd ei fod yn dilyn y grefydd sikh ac yn gwisgo tyrban. Mae'n anghyfreithlon hefyd erlid disgybl oherwydd rhywbeth a wnaed gan ei riant, ei frawd neu ei chwaer mewn perthynas â'r Ddeddf Cydraddoldeb. Er enghraifft, ni ddylid gwneud i ddisgybl ddioddef mewn unrhyw ffordd am fod ei riant wedi cwyno bod yr ysgol yn euog o wahaniaethu yn erbyn disgybl.

Gweithredu cadarnhaol

Efallai y bydd disgyblion yn dioddef bwlio yn sgil eu nodwedd warchodedig. Mae bwlio yn effeithio ar berfformiad academaidd ac yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd disgyblion yn gadael byd addysg. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn cynnwys darpariaethau 'gweithredu cadarnhaol' sy'n galluogi cyrff llywodraethu i gymryd camau cadarnhaol i oresgyn rhwystrau i ddisgyblion sydd â nodwedd warchodedig neu i ehangu'r maes. Gall gweithredu cadarnhaol olygu, er enghraifft, trin disgybl 'A' yr ailbennwyd ei rywedd yn fwy ffafriol na disgyblion nad ydynt yn rhannu'r nodwedd warchodedig honno, a bydd yn gyfreithlon os mai amcan y driniaeth yw cael gwared ar yr anfantais i 'A' neu ei lleihau, er enghraifft bwlio, ac os yw'r driniaeth yn cyflawni amcan cyfreithlon.

Dyletswydd y Sector Cyhoeddus i Sicrhau Cydraddoldeb

Mae Adran 149(1) Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus ("y ddyletswydd gyffredinol"). Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus, wrth arfer eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i:

- ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu, erlid ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf;
- hybu cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigiolion nad ydynt yn ei rhannu;
- meithrin cysylltiadau da rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu.

Mae rhoi *sylw dyledus* yn golygu meddwl yn ymwybodol am dair nod y ddyletswydd gyffredinol fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Mae hyn yn golygu y dylai ystyried materion cydraddoldeb ddylanwadu ar y penderfyniadau a wneir gan gyrff llywodraethu o ran sut maent yn gweithredu; sut maent yn datblygu, yn gwerthuso ac yn adolygu polisi; sut maent yn cynllunio, yn darparu ac yn gwerthuso gwasanaethau; a sut maent yn comisiynu ac yn caffael gan eraill.

Dyletswydd benodol

Mae Erthygl 8 o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrff Llywodraethu asesu effaith debygol polisïau ar eu gallu i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol. Mae'n rhaid iddynt hefyd barhau i fonitro polisïau ac arferion i sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio.

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cyhoeddi canllawiau ar y Ddeddf Cydraddoldeb i ysgolion ac mae'n bwriadu cyhoeddi Cod Ymarfer i ysgolion maes o law. Gellir lawrlwytho mwy o wybodaeth a chanllawiau o'i wefan yn: http://www.equalityhumanrights.com.

Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn gosod mwy o ddyletswyddau statudol ar Gyrff Llywodraethu i'w galluogi i gyflawni'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol yn well. Ymhlith y dyletswyddau hyn mae'r gofyniad i asesu effaith debygol polisïau ar eu gallu i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol. Dylent hefyd barhau i fonitro polisïau ac arferion i sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio.

Deddf Hawliau Dynol 1998

Dywed Erthygl 14 Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol y dylai'r gallu i fanteisio ar fathau eraill o hawliau a rhyddid gael ei sicrhau drwy beidio â gwahaniaethu ar unrhyw sail. Gallai hyn fod ar sail rhyw, hil, lliw, iaith, crefydd, barn wleidyddol neu farn arall, tarddiad cenedlaethol neu gymdeithasol, cysylltiad â lleiafrif cenedlaethol, eiddo, genedigaeth neu statws arall. Mae'r mathau gwahanol o hawliau a rhyddid yn cynnwys:

- Erthygl 8 (Yr Hawl i Barchu Bywyd Preifat a Bywyd Teuluol) sy'n cwmpasu gallu'r unigolyn i ddatblygu ei bersonoliaeth mewn cymdeithas;
- Erthygl 9 (Rhyddid Meddwl, Cydwybod a Chrefydd) sy'n cwmpasu hawl unigolyn i amlygu ei grefydd, sy'n cynnwys cydymffurfio â gofynion y grefydd honno mewn perthynas â gwisg; ac
- Erthygl 10 (Rhyddid Mynegiant) sy'n cwmpasu hunanfynegiant drwy wisg.

Gall yr hawliau hyn gael eu cyfyngu e.e. o ganlyniad i bolisi gwisg ysgol neu edrychiad disgyblion. Fodd bynnag, rhaid i'r polisi anelu at hyrwyddo buddiannau cyfreithlon megis diogelwch y cyhoedd, trefn gyhoeddus, iechyd neu foesau, neu ddiogelu hawliau a rhyddid pobl eraill. Mae a wnelo'r manteision posibl o gael polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion fel y nodwyd ym mharagraff 1.2 uchod, â'r buddiannau hyn. Ond gan y gallai polisïau gwisg ysgol neu edrychiad disgyblion fod gyfystyr â chyfyngu ar hawliau, dylid ei nodi'n glir mewn dogfen sydd ar gael yn hawdd i ddisgyblion a rhieni a hynny mewn ieithoedd y maent yn eu deall. Dylent hefyd nodi canlyniadau peidio â chydymffurfio ag unrhyw bolisi.

Atodiad B

Crynodeb ynghylch dillad crefyddol

Bwdhaeth

At ei gilydd nid oes unrhyw ofynion crefyddol ar gyfer gwisg Bwdhyddion o ddydd i ddydd.

Cristnogaeth

Nid oes unrhyw ofynion penodol o ran gwisg ar gyfer y rhan fwyaf o Gristnogion. Mewn rhai sectau Cristnogol megis y Plymouth Brethren, disgwylir i fenywod a merched wisgo'n syml gan gynnwys sgarff pen.

Hindŵaeth

At ei gilydd nid yw'n dderbyniol i ferch Hindŵ fynd o gwmpas â'i choesau heb eu gorchuddio.

Islam

Efallai y bydd merched ifanc y tu hwnt i'r glasoed am wisgo mathau arbennig o ddillad i ddangos eu gwyleidd-dra. Gallai rhai merched ifanc ddewis gwisgo salwar kameez (trowsus llac yn tynhau wrth y pigwrn a ffrog heb lewys ar siâp smoc), neu jilbaab (ffrog laes ddi-siâp hyd at y pigwrn) a sgarff i orchuddio'r pen heb y rheidrwydd i wisgo niqaab.

Disgwylir i ddynion orchuddio eu hunain o'u canol i'w pen-gliniau yn gyhoeddus. Mae llawer o ddynion Mwslim hefyd yn dewis gwisgo cap ond nid yw hyn yn orfodol o safbwynt crefyddol.

Iddewiaeth

Mae'r gofynion o ran gwisg yn amrywio yn ôl yr uniongrededdd. Ymhlith Iddewon mwy uniongred mae disgwyl i fenywod a merched orchuddio eu cyrff ac i fenywod priod orchuddio eu gwallt. Mae bechgyn a dynion yn aml yn gwisgo cap corun.

Rastaffariaid

Mae menywod Rastaffariaid yn gwisgo'n syml. Mae gwisgo dillad ail-law yn waharddedig ac mae'n bosibl na fydd plant yn barod i wisgo dillad ar fenthyg ar gyfer gwersi Ymarfer Corff ac ati.

Sikhiaeth

Yn gyffredinol mae gwisg syml yn ofynnol. Mae Sikhiaid sydd wedi'u derbyn oll yn gwisgo'r pum symbol 'K' fel arwydd eu bod wedi'u derbyn yn rhan o'r gymuned Sikh. Bydd hyn yn digwydd fel arfer pan fyddant yn cyrraedd y glasoed. Mae'r dynion sy'n Sikhiaid yn gwisgo tyrban ac yn tyfu barf. Mae tynnu'r tyrban yn annerbyniol yn ôl eu crefydd. Dyma'r pum symbol 'K': ‘kesh’ (gwallt hir nad yw'n cael ei dorri); ‘kara’ (breichled arian); ‘kirpan’ (cleddyf bach); ‘kangha’ (crib bren); a ‘kach’ (tronsiau hir).